# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – ADDYSG A PHOBL IFANC

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 11 IONAWR 2017 AM 4.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | C R Doyle | C R Evans |
| R V Smith | L V Walton | |

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd J E Raynor – Aelod y Cabinet dros Addysg

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd: M B Lewis

**Swyddogion:**
David Bawden – Swyddog Cwricwlwm 14-19
Gavin Evans – Rheolwr Gwasanaethau Pobl Ifanc
Jo-Ann Walsh – Rheolwr Cadw mewn Cysylltiad
Gareth Borsden – Gwasanaethau Democrataidd

37 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

38 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2016 yn gofnod cywir.

39 **CYNIGION AR GYFER YMGYSYLLTU Â PHOBL IFANC A RHIENI. (LLAFAR) (JANE WHITMORE)**

Dywedodd y cadeirydd nad oedd Jane Whitmore yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod ond nododd y byddai ar gael i ddod i gyfarfod PCC ym mis Chwefror.

**PENDERFYNWYD** gohirio'r adroddiad tan y cyfarfod nesaf.

40 **PROSIECT CYNNYDD. (LLAFAR) (DAVID BAWDEN /TRACEY NICHOLS)**

Rhoddwyd cyflwyniad llafar gan David Bawden a oedd yn amlinellu cefndir a sail y Prosiect Cynnydd sydd wedi'i ddatblygu ar draws rhanbarth ERW a chyda Cyngor Sir Gâr yn ei arwain.

Nododd fod y cynllun wedi bod yn gweithredu'n llawn ers mis Medi 2016 a chaiff ei gynnal tan 2019 dan y trefniadau cyllido presennol. Prif nod y prosiect yw lleihau nifer y bobl ifanc sy'n dod yn NEETS (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant). Nododd fod y cynllun yn cael ei gyflwyno yn Abertawe drwy weithio ar y cyd rhwng yr awdurdod addysg lleol, Coleg Gŵyr a Gyrfa Cymru.

Darperir y prif gymorth i bobl ifanc drwy gyflogaeth Hyfforddwyr Dysgu sy'n gweithio mewn amryw o ysgolion uwchradd yn y ddinas. Mae'r Hyfforddwyr Dysgu hyn yn gweithio'n agos gyda phobl ifanc ac yn eu cynorthwyo drwy roi help unigol iddynt, cwblhau prosiectau dal i fyny a chynnig cymorth gyda llythrennedd a rhifedd.

Amlinellwyd prif amcanion y prosiect, sef cyrraedd pobl ifanc diamddiffyn ac ymgysylltu â hwy, lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - NEETS - a'u cefnogi i ennill cymwysterau.

Amlinellwyd y broses adnabod pobl ifanc cymwys ar gyfer y cynllun, sy'n seiliedig ar eu sgôr VAP. Nod y prosiect yw cynnig cymorth a chyrsiau sy'n ychwanegol i'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd.

Manylodd ar y mathau gwahanol o gyrsiau a oedd ar gael i bobl ifanc gael mynediad iddynt, a oedd yn gyrsiau dysgu prif ffrwd a chwricwlwm amgen/ hyfforddiant galwedigaethol. Mae Gyrfa Cymru hefyd yn cefnogi pobl ifanc a'u cynorthwyo i gael swyddi fel rhan o'r cynllun.

Cyfeiriodd at yr angen i fesur cyflawniad yn gywir a hefyd gwblhau'r ffurflenni monitro'n briodol er mwyn sicrhau parhad cyllido'r cynllun yn y dyfodol.

Cynhaliwyd trafodaeth hefyd ynghylch yr angen am ddarpariaeth gwasanaethau cwnsela ac iechyd meddwl ychwanegol i bobl ifanc a bod hyn yn fater pwysig yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Datblygwyd cynllun newydd o'r enw "Engage" er mwyn cynorthwyo yn hyn o beth, ac mae'n aros am gymeradwyaeth gyllido ar hyn o bryd.

41 **ARFER DA WRTH GEFNOGI POBL IFANC I DDOD O HYD I GYFLOGAETH. (LLAFAR) (GAVIN EVANS)**

Amlinellodd Gavin Evans a Jo-Anne Walsh nad oedd un templed syml neu amlwg ar gyfer cynorthwyo pobl ifanc i gael swyddi. Ceir amrywiaeth eang o opsiynau/cynlluniau/gweithgareddau i bobl ifanc ar draws y ddinas ac mae'r ddarpariaeth wedi'i seilio ar anghenion yr unigolyn.

Nodwyd ganddynt fod cynnydd calonogol blynyddol wedi'i wneud mewn perthynas â'r AGPh a Gyrfa Cymru i leihau nifer y NEETs. Soniwyd ganddynt fod fframwaith

gan Lywodraeth Cymru yn ei le i gynorthwyo er yr awdurdod sy'n arwain yn Abertawe mewn cydweithrediad â'i bartneriaid allweddol, megis ysgolion, Coleg Gŵyr, Cyfiawnder Ieuenctid a'r sector gwirfoddol.

Nodwyd y nodweddion allweddol o ran cynorthwyo pobl ifanc ganddynt:

- Adnabod y bobl ifanc sydd mewn perygl
- Broceriaeth a chefnogaeth well
- Olrhain a throsglwyddo pobl drwy'r system mewn ffordd fwy cadarn
- Sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion y bobl ifanc
- Sgiliau cyflogadwyedd cryfach a mwy o gyfleodd cyflogaeth

Nodwyd ganddynt fod hyfforddiant o safon, gwell monitro a mesur cyflawniad, cynnydd a chanlyniadau fel meysydd allweddol i'w datblygu ond cyfeiriwyd hefyd at yr arfer da a oedd eisoes ar waith gyda phartneriaid fel Cynnydd a Gyrfa Cymru, ac amlinellwyd esiamplau da cyfredol o brofiad gwaith, dysgu yn y gweithle a phrentisiaethau DASA.

Cyfeiriwyd ganddynt at ddatblygiad a llwyddiant y prosiect "Symud Ymlaen" a gynhaliwyd dros y 2 i 3 blynedd diweddaf ac sydd wedi targedu pobl ifanc sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder ieuenctid a'r system gofal. Golyga hyn ymagwedd wedi'i thargedu gyda phrofiad gwaith â thal, ac mae wedi bod yn llwyddiannus iawn.

Y gobaith yw y caiff y cynllun ei gynnwys mewn model newydd i'r dyfodol, sef y prosiect "Cam Nesa" sydd wrthi'n cael ei ddatblygu i blant 16-18 oed gyda chyllid Ewropeaidd. Y gobaith yw y bydd y cynllun hwn yn cychwyn ym mis Ebrill 2017, a bydd yn adeiladu ar esiamplau cyfredol o arfer da y gellir eu cynnig i bobl ifanc.

Amlygwyd unwaith eto bwysigrwydd nodi problemau ac anghenion pobl ifanc yn gynnar gan aelodau fel ffactor allweddol wrth symud ymlaen oherwydd gall fod llawer yn anos mynd i'r afael â phroblemau unwaith y bydd plentyn yn 15/16 oed, a gall hynny'n aml arwain at broblemau ychwanegol a mwy cymhleth.

## 42 CYNLLUN GWAITH.

**PENDERFYNWYD** i nodi'r cynllun gwaith.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.05 pm

**CADEIRYDD**